**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**—**
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

13 Mawrth 2023

Annwyl Eluned

Cynlluniau Llywodraeth Cymru

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn gynllunio strategol i fyfyrio ar ein gwaith hyd yma yn y Chweched Senedd, ac i ystyried ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad byr ar ein hadolygiad maes o law.

Yn ein gwaith o graffu ar Lywodraeth Cymru, ein nod yw bod yn adeiladol. Wrth drefnu ein gwaith, felly, rydym yn ceisio ystyried cyn belled ag y bo modd pa wybodaeth sydd ar gael i ni am bolisïau, strategaethau, cynlluniau ac ymgynghoriadau arfaethedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amserlenni (ac unrhyw newidiadau i amserlenni a gyhoeddwyd yn flaenorol).

Er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu ein rhaglen waith, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

1. Y cynllun iechyd menywod sy'n cael ei ddatblygu gan Gydweithfa GIG Cymru i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd ym mis Gorffennaf 2022 yn y datganiad ansawdd ar gyfer iechyd menywod a merched. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am:

    a. Eich penderfyniad i ofyn i GIG Cymru ddatblygu'r cynllun iechyd menywod, pan mai dim ond rhai o'r materion y gall gwasanaethau iechyd fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae gwella iechyd menywod yn dibynnu ar

benderfynyddion ehangach fel tlodi ac ymchwil a datblygu, nid dim ond darparu gwasanaethau clinigol.

b. Cylch gorchwyl y rhwydwaith clinigol ar iechyd menywod, i helpu i wella ein dealltwriaeth o sut y bydd darparu gwasanaethau (gwasanaethau clinigol/cysylltiedig ag iechyd) a phenderfyniadau polisi ehangach sydd â'r nod o wella iechyd menywod yn gweithio gyda'i gilydd.

c. Y cynlluniau ar gyfer y gronfa ymchwil bwrpasol ar gyfer iechyd menywod, gan gynnwys pryd y bydd yn weithredol a phwy fydd yn ei goruchwylio.

d. Sut y bydd cydgynhyrchu cynaliadwy wrth ddatblygu, gweithredu a monitro’r cynllun iechyd menywod yn cael ei ariannu.

e. Eich blaenoriaethau penodol ar gyfer iechyd menywod yn ystod y Senedd hon. Rydym yn nodi bod y datganiad ansawdd yn cynnwys rhestr o lawer o wahanol gyflyrau iechyd lle mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Sut y bydd gwaith yn y meysydd gwahanol hyn yn cael ei flaenoriaethu?

2. Y **cynllun gweithredu strôc** sy’n cael ei ddatblygu gan y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc i gyflawni’r uchelgeisiau a nodwyd ym mis Medi 2021 yn y datganiad ansawdd ar gyfer strôc, gan gynnwys pryd y disgwyliwch i'r cynllun gael ei gyhoeddi.

3. Yr adroddiad terfynol ar y **gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Ein dealltwriaeth ni yw bod yr adroddiad terfynol i fod i gael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2023; a allech gadarnhau'r dyddiad hwn.

4. Pryd y bydd y **Canllawiau Cynllunio Iechyd** a’r **dyraniadau byrddau iechyd** yn cael eu cyhoeddi (fel y cawsant yn y blynyddoedd diwethaf).

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn **3 Ebrill 2023.**

Yn gywir

Russell George

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.